# MYND I GERDDED AR Y BWS

Swansea Walks · Teithiau Cerdded Abertawe

## Llanmadog







'Mynd i Gerdded ar y Bws' yw un o fentrau Dinas a Sir Abertawe i annog twristiaeth gynaliadwy a ffyrdd iach o fyw drwy hyrwyddo teithiau cerdded byr sydd wedi'u cysylltu â theithiau bws.

## Gwybodaeth am Fysus

**Dydd Llun-dydd Sadwrn** (bob 2 awr)
Gower Explorer Rhifau 118 a 116 i Lanmadog o Orsaf Fysus Abertawe.
**Dydd Sul** (2 daith): Gower Explorer Rhifau 119 i Lanmadog o Orsaf Fysus Abertawe.
(gall rhai teithiau olygu newid).
Gwiriwch cyn teithio.
**Llinell Deithio Cymru** ☎ 0870 608 2 608
www.traveline-cymru.org.uk

## Uchafbwyntiau'r Daith Gerdded

- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Twyni Whiteford - mosaig o gynefinoedd pwysig sy'n cynnal llawer o blanhigion prin.
- Eglwys Llanmadog - yn ôl yr hanes ar safle adeilad cynharach o lawer. Mae adeilad heddiw yn dyddio o'r 13eg ganrif (allwedd ar gael o'r siop).
- Golygfeydd dros foryd Llwchwr.

## Cysylltiadau Defnyddiol

**Canolfan Croeso Abertawe**
**☎ 01792 468321 ✉ tourism@swansea.gov.uk**
**www.dewchifaeabertawe.com**
**www.abertawe.gov.uk/aonb**

| | |
|---|---|
| **Dechrau a Gorffen:** | Safle bws yn Llanmadog. |
| **Pellter/amser:** | Tua 2 1/4 filltir, 1-2 awr. |
| **Tir:** | Yr wyneb yn amrywio o dir caled a llyfn, i dir meddal ac anwastad. Mae grisiau ond dim camfeydd. |
| **Byddwch yn barod:** | Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas ar gyfer yr amodau a'r tymhorau. |
| **Lluniaeth:** | Tafarn a siop gymunedol yn Llanmadog. |
| **Toiledau Cyhoeddus:** | Dim. |

- Dechreuwch y daith lle bydd y bws yn aros ar ben ei daith yn Llanmadog. Ewch i gyfeiriad y gorllewin, heibio'r Hen Reithordy i gyfeiriad yr eglwys. Yn union cyn yr eglwys, ewch ar y ffordd ar y dde i lawr i gyfeiriad Cwm Ivy.
- Wrth gyrraedd Cwm Ivy, ewch i'r chwith tuag at Fwthyn Cwm Ivy a thrwy gât yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Ewch yn eich blaen am i lawr ar hyd y trac, sy'n gwastatáu wedyn, nes i chi ddod i gyffordd T.
- Trowch i'r dde drwy'r gât, i Goedwig Whiteford. Cerddwch i lawr y trac ar hyd ymyl y goedwig, heibio i Burrows Cottage am oddeutu 1/2 milltir i'r gât nesaf.
- Ychydig o lathenni heibio i'r gât, trowch oddi ar y trac a mynd drwy'r gât fochyn, ac ar hyd llwybr y sarn.
- Dilynwch y llwybr ar hyd pen y sarn nes i chi gyrraedd yr ail gât fochyn. Ewch drwy'r gât hon a dilyn y trac (gan fynd heibio mwy o gatiau ar y ffordd) nes cyrraedd ffordd gul, sy'n dringo yn ôl i bentref Llanmadog.
- Trowch i'r chwith heibio i Glenside Cottage a dilyn y ffordd am ychydig lathenni, cyn troi i'r dde ar y brif ffordd drwy'r pentref ac yn ôl i'r safle bws.




Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu – Ionawr 2014. Mae taflenni eraill yn y gyfres hon ar gael gan Ganolfan Croeso Abertawe, www.abertawe.gov.uk/aonb Stryd Plymouth, Abertawe SA1 3QG.

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

Bae Abertawe · Y Mwmbwls a Gŵyr




Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans
© hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2014



# Llanmadoc
Walking by Bus

Landscapes for life .org.uk
GOWER One of the AONB Family